Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales

Recriwtio Ymddiriedolwyr

Cyfle gwirfoddol, tymor gwasanaeth cychwynnol o dair blynedd



Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

Neges gan Gadeirydd Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales

Ydych chi'n angerddol dros y celfyddydau a phosibiliadau trawsnewidiol llenyddiaeth?

Ydych chi'n ymroddedig i werthoedd cynhwysiant a thegwch ac yn credu y gall diwylliant yn ei holl ffurfiau arwain at newid cadarnhaol i'r gymdeithas?

Oes gennych chi'r wybodaeth a'r sgiliau i gefnogi llywodraethu da, i ddatblygu strategaeth ac i ysbrydoli newid cadarnhaol?

Os felly, hoffwn eich annog i ystyried ymgeisio am y rôl gyffrous hon, gydag un o sefydliadau celfyddydol mwyaf blaenllaw a dwyieithog Cymru.

Fel Ymddiriedolwr, eich rôl fydd dod ag eglurder, persbectif ac yn herio'r weithrediaeth. Byddwch hefyd yn helpu i lunio cyfeiriad y sefydliad ac yn sicrhau ein bod yn parhau i gael effaith cadarnhaol wrth gadw awduron yn ganolbwynt i'n gwaith.

Rydym yn adeiladu Bwrdd sy'n adlewyrchu ein diwylliant Cymreig amrywiol: cefndiroedd, profiadau a ffyrdd gwahanol o weld y byd, wedi'u huno gan chwilfrydedd am awduron, cymunedau a sut y gall llenyddiaeth chwarae rhan ystyrlon ym mywydau pobl. Rydyn ni'n annog ceisiadau yn arbennig gan unigolion sy'n uniaethu ag un neu fwy o'r datganiadau canlynol:

- Rwy'n dod o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig.
- Rwy'n anabl neu'n dioddef â salwch hirdymor (meddyliol neu gorfforol).
- Rwy'n dod o gefndir incwm isel.

Byddwch yn ymuno â Bwrdd a thîm ymroddedig ledled Cymru, o Ganolfan Ysgrifennu Genedlaethol Cymru, Tŷ Newydd, yng Ngwynedd, i'n swyddfa ym Mae Caerdydd, rydym yn cydweithio i gefnogi awduron a llunio dyfodol Diwylliant Llenyddol Cymru.

Steve Dimmick



Steve Dimmick, Cadeirydd



Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

Amdanom ni

Yn **Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales**, ein nod yw **cefnogi awduron**, waeth ble maen nhw ar eu taith. O blant yn darganfod cariad at eiriau, i leisiau newydd yn canfod eu traed, i unigolion sy'n 'sgwennu'n rheolaidd ond yn chwilio am y cam nesaf, neu awduron sefydledig sy'n rhoi Cymru ar y map. Yn syml, y rheswm mae **ein helusen (rhif 1146560)** yn bodoli yw er mwyn eu helpu i dyfu a ffynnu.

Rydym yn gwneud hyn trwy gynnig **cyrsiau ysgrifennu creadigol**, **ysgoloriaethau**, **mentora** a **hyfforddiant**. Rydym yn rhoi **cyfleoedd i blant gael eu hysbrydoli gan awduron** o fewn a thu hwnt i'r dosbarth, ac yn eu helpu i gynnal **gweithdai a digwyddiadau yn y gymuned**. Rydym hefyd yn dathlu'r gorau ym maes ysgrifennu Cymru gyda **gwobrau** fel Llyfr y Flwyddyn a chynlluniau megis Bardd Cenedlaethol Cymru.

Ond dyw'r gwaith yma ddim am y 'sgwennu yn unig – mae'n ymwneud â newid. Rydym am fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y sector, gan ymdrechu i sicrhau bod sîn lenyddol Cymru yn adlewyrchu amrywiaeth y genedl. Credwn hefyd fod gan eiriau y grym i drawsnewid bywydau, cefnogi llesiant, ac ysbrydoli gweithredu ar faterion mawr fel yr argyfwng hinsawdd.

Mae ein gwaith yn digwydd mewn sawl ffordd: rydym yn rhedeg prosiectau ein hunain, yn partneru â sefydliadau eraill, neu'n ariannu eraill i ddod â syniadau'n fyw. Rydym yn cael ein cefnogi gan Gyngor Celfyddydau Cymru a llu o ymddiriedolaethau, sefydliadau, cwmnïau ac unigolion gwych. Eu haelioni nhw sy'n gwneud ein rhaglenni'n bosibl.

Rydym yn gweithio yn y Gymraeg, Saesneg, ac yn ddwyieithog ledled Cymru, gyda swyddfeydd yn Llanystumdwy a Chaerdydd.

Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb:

Siapio sector sy'n cefnogi mynediad teg i bawb drwy fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hanesyddol a strwythurol a rhoi llwyfan i leisiau amrywiol.

Iechyd a Llesiant:

Cefnogi llesiant unigolion a chymunedau, gan ddefnyddio potensial llenyddiaeth i iacháu er mwyn gwella gwasanaethau.

Yr Argyfwng Hinsawdd:

Defnyddio creadigrwydd i addysgu, archwilio a herio, gan gynyddu dealltwriaeth o'r argyfwng hinsawdd ac ysbrydoli newid sy'n para.

Yn Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales, mae ein hagwedd a'n dyheadau fel cwmni yn radical, ac rydyn ni'n ymroddedig i barhau i drawsnewid diwylliant llenyddol Cymru yn yr hir dymor. Eirioli dros y Gymraeg a diwylliant amrywiol a bywiog Cymru yw cerrig sylfaen ein hamcanion fel sefydliad, gyda phob un yn gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydyn ni'n cynnig ystod o wasanaethau o Gynlluniau Datblygu Awduron Proffesiynol sy'n mynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn y sector, i ysgogi a hwyluso digwyddiadau cymunedol drwy roi cyngor a chymorth ariannol. Mewn cydweithrediad â phartneriaid ar draws sectorau amrywiol, rydyn ni hefyd yn hwyluso rolau llysgenhadol cenedlaethol proffil uchel fel Bardd Cenedlaethol Cymru, Bardd Plant Cymru a Children's Laurate Wales, ac yn rheoli gwobrau blynyddol Llyfr y Flwyddyn.

Mae ein pencadlys, Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, yn rhan bwysig o dreftadaeth lenyddol gyfoethog Cymru. Fe'i sefydlwyd ym 1990, a hi yw Canolfan Ysgrifennu Genedlaethol Cymru. Ers hynny mae miloedd o ddarpar ac egin awduron wedi camu drwy ein drws gwyrddlas eiconig ac wedi mynd yn eu blaenau i gyfoethogi tirlun diwylliannol Cymru. Gallwch ddarllen rhai o'u straeon llwyddiant yma.

Sefydlwyd Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales yn 2011 a'i uno â Chanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, rydym yn gweithio gyda chefnogaeth Cyngor y Celfyddydau a Llywodraeth Cymru. Rydyn ni'n Gwmni Cyfyngedig trwy Warant (07779153) ac yn Elusen Gofrestredig (1146560), a lywodraethir gan Fwrdd Rheoli o Ymddiriedolwyr ac ar hyn o bryd rydyn ni'n cyflogi 21 aelod o staff.







Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

Ynglŷn â swydd Ymddiriedolwr a sgiliau penodol

Mae gan Ymddiriedolwyr Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales gyfrifoldeb dros gyfeiriad strategol y sefydliad ac am sicrhau bod blaenoriaethau strategol yn gyson â gofynion rhanddeiliaid ac arianwyr, ac o fudd i gymdeithas. Mae ein Hymddiriedolwyr yn ymgorffori ein gwerthoedd, yn ymroddedig i gydraddoldeb a chynhwysiant ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg a dwyieithrwydd.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn goruchwylio cyllid a llywodraethu'r sefydliad, ac yn gweithio'n agos gyda'r Swyddogion a chydweithwyr ar draws y sefydliad i sicrhau bod amcanion y sefydliad yn cael eu dilyn fel y'u diffinnir yn ei ddogfen llywodraethu.

Bydd Ymddiriedolwyr yn deall ac yn cydymffurfio'n llawn gyda chwe dyletswydd hanfodol y Comisiwn Elusennau, a byddant yn ymrwymo i saith egwyddor bywyd cyhoeddus Nolan: **anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.**

I sicrhau ein bod yn adlewyrchu ac yn gwasanaethu cyfoeth cymunedau amrywiol Cymru, rydyn ni'n annog ceisiadau yn arbennig gan unigolion sy'n uniaethu ag un neu fwy o'r datganiadau canlynol:

- Rwy'n dod o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig.
- Rwy'n anabl neu'n dioddef â salwch hirdymor (meddyliol neu gorfforol).
- Rwy'n dod o gefndir incwm isel.



Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

Mae'r cyfrifoldebau/dyletswyddau allweddol yn cynnwys*:

- Cefnogi a gweithio gyda'r Swyddogion a'r tîm ehangach o staff i sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni ei gyfrifoldebau cyfreithiol ac elusennol. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â dogfennau llywodraethu'r sefydliad, cyfraith cwmnïau ac elusennau, yn ogystal â rheoliadau a deddfwriaeth berthnasol arall.
- Cyfrannu'n effeithiol i'n Bwrdd deinamig a chynnig her gadarnhaol i'r Swyddogion.
- Cefnogi'r Bwrdd a'r Swyddogion drwy rannu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad i helpu i wneud penderfyniadau effeithiol a gwybodus.
- Cyfrannu at adolygiadau rheolaidd o weithdrefnau a strategaeth sefydliadol, yn unol â gofynion ariannu ac anghenion busnes.
- Cefnogi'r Cadeirydd a'r Swyddogion i gynnal perthynas gydag arianwyr.
- Adolygu polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad yn flynyddol, a darparu cyngor datblygu ar sail arbenigedd.
- Mynychu sesiynau hyfforddi achlysurol (e.e. cyfraith elusennau a llywodraethu), grwpiau gorchwyl a gorffen neu sesiynau cynllunio creadigol.
- Cefnogi'r Uwch Dîm Arwain drwy gynrychioli'r cwmni gyda rhanddeiliaid allanol i ddatblygu perthnasau a rhwydweithiau'r sefydliad.
- Mynychu **pedwar** cyfarfod chwarterol y Bwrdd Rheoli bob blwyddyn a chyfrannu at waith ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith strategol ychwanegol ar sail gorchwyl a gorffen, yn ôl yr angen.
- Mynychu digwyddiadau sefydliadol gan gynnwys Seremoni Llyfr y Flwyddyn a chynrychioli'r sefydliad mewn digwyddiadau a gweithgareddau allanol.
- **Opsiynol:** Ymuno â'r Is-bwyllgor Risg sy'n cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn.

Brasamcan ymrwymiad amser Ymddiriedolwyr: hyd at 10 awr y mis.

*Nid yw'r rhestr uchod yn hollgynhwysol.

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

Ymddiriedolwyr Ifanc

Mae ymddiriedolwyr ifanc yn dod â safbwyntiau ffres ac yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod y sefydliad yn adlewyrchu ac yn cynrychioli cenhedlaeth newydd o awduron a chynulleidfaoedd. Mi fyddwch yn datblygu sgiliau arweinyddiaeth a llywodraethu, yn meithrin hyder, yn ehangu eich rhwydwaith proffesiynol, ac yn cael cipolwg ar sut mae elusen genedlaethol yn gweithredu, gan wella eich CV ac agor drysau i gyfleoedd yn y dyfodol. Mae'n gyfle i leisio barn, dylanwadu ar newid ystyrlon, a bod yn rhan o sefydliad sy'n ymroddedig i ysbrydoli pobl trwy rym geiriau.

Fel Ymddiriedolwr, byddwch yn aelod cyfartal o'r bwrdd, nid yn llais symbolaidd, gyda dylanwad gwirioneddol dros y penderfyniadau sy'n llywio dyfodol Llenyddiaeth Cymru | Llenyddiaeth Cymru. Byddwch yn ein helpu i gadw mewn cysylltiad â'r bobl ifanc rydyn ni'n eu gwasanaethu, yn cynnig her adeiladol, ac yn dod â'ch syniadau, safbwyntiau a phrofiad eich hun. Mae hwn yn gyfle arweinyddiaeth go iawn, nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol, dim ond angerdd dros lenyddiaeth, chwilfrydedd, ac ymrwymiad i gymryd rhan.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gael sgwrs anffurfiol i drafod y rôl cyn gwneud cais, cysylltwch ag Alys Lewin, Rheolwr Gweithrediadau ac Ysgrifennydd y Cwmni: alys@llenyddiaethcymru.org / 029 2047 2266



Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

Blwyddyn ym mywyd Ymddiriedolwyr Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales

Fel Ymddiriedolwr i Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales, byddwch yn cwrdd â'ch Cyd-Aelodau Bwrdd a'r Swyddogion mewn Cyfarfod Bwrdd bob chwarter i adolygu proses strategol ac i gefnogi datblygiad. Mae meithrin ymgysylltiad gyda'r tîm ehangach o staff yn flaenoriaeth i'n Hymddiriedolwyr, ac ym mhob cyfarfod bydd aelod gwahanol o staff yn ymuno yn y cyfarfod i gynnig cipolwg o brosiect penodol neu ddatblygiad creadigol cyffrous.

O bryd i'w gilydd, byddwch yn gweithio'n agos gydag aelodau o'r tîm i gefnogi ac i ymgynghori ynghylch datblygiadau creadigol a gweithredol, gan ddefnyddio eich sgiliau a'ch profiad i wella ein darpariaeth datblygu awduron, neu gyfrannu at drafodaethau panel yn ystyried ceisiadau ar gyfer ein rolau llysgenhadol proffil uchel, neu benodiadau mewnol.

Bydd gennych gyfle i ymweld ac aros ar safle hanesyddol Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd – sef canolfan ysgrifennu genedlaethol Cymru. Nid yn unig y mae Tŷ Newydd yn rhan hanfodol o Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales, ond mae hefyd yn rhan bwysig o dreftadaeth ddiwylliannol a llenyddol Cymru. Dyma gyn-gartref y gwleidydd, David Lloyd George, ac fe'i hail-ddyluniwyd gan Clough Williams Ellis, a greodd bentref Portmeirion. Byddwch yn cael eich hysbrydoli wrth gerdded trwy'r drws gwyrddlas eiconig yn ôl troed llawer o awduron mwyaf adnabyddus Cymru gan gynnwys Hanan Issa, Bardd Cenedlaethol presennol Cymru, Cynan Jones a Manon Steffan Ros. Ac os ydych chi'n ffodus, fe allech gwrdd â seren lenyddol y dyfodol yn mireinio eu sgiliau yn y llyfrgell.

Byddwn ni'n rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chi drwy'r flwyddyn am weithgaredd presennol, newyddion a llwyddiannau, a byddwch yn cael gwahoddiadau i ddigwyddiadau sefydliadol a digwyddiad partneriaid, gan gynnwys Seremonïau Llyfr y Flwyddyn i ddathlu ein diwylliant llenyddol, a chodi proffil Cymru a'i hawduron.

I gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus ein Bwrdd a'n Swyddogion, ac i aros yn wydn fel sefydliad, rydyn ni'n trefnu cyfleoedd hyfforddi drwy gydol y flwyddyn o wrth-hiliaeth i lywodraethu, o gyfraith elusennau i hygyrchedd. Mae ein Hymddiriedolwyr yn gwasanaethu tymor o dair blynedd i ddechrau, gydag opsiwn i ymestyn am dair blynedd arall.

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

Rhai o gyfraniadau diweddar ein Hymddiriedolwyr

Dyma enghreifftiau o nifer o gyfraniadau amrywiol a wnaed gan ein Hymddiriedolwyr yn ddiweddar:



Ym mis Mawrth 2026, ymunodd rhai o'n Hymddiriedolwyr â ni yn y Senedd i ddathlu prosiect barddoniaeth Menywod Cronig, gyda'r nod o wella dealltwriaeth o gyflyrau iechyd menywod ac ymdrin ag anghydraddoldebau mewn gofal a chanlyniadau iechyd i fenywod yng Nghymru. Dyfeisiwyd y prosiect gan **Hanan Issa**, Bardd Cenedlaethol Cymru, a weithiodd yn agos gyda **Gwyneth Lewis**, Bardd Cenedlaethol cyntaf Cymru.



Yn ystod 2025, cafodd gynrychiolwyr o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr eu cefnogi gan yr Uwch Dîm Arwain i gynllunio olyniaeth a recriwtio Cadeirydd newydd. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu'n weithredol â darpar ymgeiswyr a thrafod y cyfle gyda nhw, cyfweliadau a gwneud argymhellion i'r Bwrdd ehangach. Penodwyd **Steve Dimmick** yn Gadeirydd ym mis Mai 2025 yn dilyn proses recriwtio agored.



Ym mis Gorffennaf 2026, mynychodd nifer o'r Ymddiriedolwyr Seremoni Llyfr y Flwyddyn Cymru yn Galeri Caernarfon. Roedd y noson yn gyfle gwych i ddathlu ein hawduron ac i'r Bwrdd gael y cyfle i ymgysylltu â'r sector llenyddol ehangach, ein rhanddeiliaid a chyllidwyr. Y prif enillwyr oedd *Mae* (Barddas) gan **Mererid Hopwood** ac *A Room Above a Shop* (Granta Books) gan **Anthony Shapland.**



Ym mis Hydref 2026, mynychodd Ymddiriedolwyr a tîm staff Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales arhosiad preswyl yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd i annog ymgysylltiad ymhlith y tîm ac i gymryd rhan mewn sesiynau cynllunio strategol. Yn ogystal, fe gynhaliwyd Cyfarfod y Bwrdd #63.

Addewid Recriwtio

Nod Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales yw bod yn sefydliad cynhwysol sy'n ymroddedig i groesawu ymgeiswyr o ystod eang o gefndiroedd. Rydyn ni'n asesu ceisiadau ar sail cryfder potensial, a byddwn ni'n cymryd camau cadarnhaol drwy warantu cyfweliad i bob ymgeisydd sy'n bodloni gofynion addasrwydd y rôl ac sy'n uniaethu fel rhywun sydd wedi'u tangynrychioli yn y sector llenyddol. Ein nod yw datblygu llenyddiaeth fel ffurf ar gelfyddyd sy'n gynrychioliadol ac yn hygyrch i bawb yng Nghymru. Rydyn ni'n credu mai'r ffordd orau o gyflawni'r nod hwnnw yw drwy greu gweithlu amrywiol sydd â phrofiadau byw amrywiol.

Rydyn ni'n annog ceisiadau yn arbennig gan unigolion sy'n uniaethu ag un neu fwy o'r datganiadau canlynol:

- Rwy'n dod o gefndir Du, Asiaidd neu Leiafrif Ethnig.
- Rwy'n anabl neu'n dioddef â salwch hirdymor (meddyliol neu gorfforol).
- Rwy'n dod o gefndir incwm isel.

Datblygwyd ein fframwaith recriwtio fel rhan o gynllun Rhaglen Ysgoloriaethau Creadigol Weston Jerwood, sy'n cefnogi sefydliadau celfyddydol i ehangu eu hymagwedd at recriwtio a datblygu doniau amrywiol. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein Cynllun Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth.

Rydyn ni wedi ymrwymo i groesawu ymgeiswyr o ystod eang o gefndiroedd, sy'n cynnwys asesu ceisiadau yn rhannol ar sail potensial. Peidiwch â digalonni os ydych chi'n newydd i'r math hwn o swydd, rydyn ni'n cynnig hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer pob Ymddiriedolwr newydd a chyfleoedd hyfforddiant parhaus.

Yn Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales rydyn ni'n gweithio gydag awduron, storïwyr, ac artistiaid o bob genre yn ogystal ag ymarferwyr creadigol, ac rydyn ni'n annog unigolion â'r sgiliau a'r profiadau hynny i ymgeisio am y rôl hon. Serch hynny, hoffem fod yn dryloyw am sut mae hyn yn effeithio ar weithio gyda ni mewn capasiti ehangach. Yn ddealladwy, mae Cyfraith Elusennau yn datgan na all Ymddiriedolwyr elwa o'u helusen, ac felly yn ystod cyfnod unigolyn ar y Bwrdd ni fyddant yn gymwys am unrhyw gyllid na chyfleoedd sy'n codi o weithgaredd Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales.

Os hoffech wneud cais am y rôl hon ond eich bod yn ansicr a oes gennych ddigon o brofiad, neu sut gallai effeithio ar eich gyrfa neu gyfleoedd eraill/amgen i weithio gyda Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales, cysylltwch â ni am sgwrs anffurfiol.

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

Ffi a hygyrchedd

Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn derbyn cyflog, a swydd sy'n cael ei chyflawni'n wirfoddol yw hon. Fodd bynnag, gall Ymddiriedolwyr hawlio treuliau rhesymol wrth gyflawni busnes yr elusen.

Mae Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales wedi ymrwymo i ddatblygu Bwrdd Rheoli amrywiol ac i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag ymuno. Rydym yn deall bod swydd Ymddiriedolwr yn ymrwymiad sylweddol, a gellir mewn rhai sefyllfaoedd darparu cymorth i unigolion drwy dalu costau gofal plant a gofal arall ac unrhyw gostau rhesymol eraill sy'n codi fel rhan o'u dyletswyddau.

Mae Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales yn credu na ddylai cyfyngiadau ariannol atal pobl rhag dod yn Ymddiriedolwr. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall Bwrdd Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales ystyried digolledu Ymddiriedolwr am golli enillion oherwydd yr amser a dreulir yn cyflawni eu busnes ar gyfer y sefydliad. Byddai angen i unrhyw gytundeb o'r fath gydymffurfio â'r Polisi Taliadau Ymddiriedolwyr a byddai'n amodol ar gael cymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau. Os ydych chi'n ansicr a fydd modd i chi ymrwymo'r amser sydd ei angen i weithredu fel Ymddiriedolwr am resymau ariannol neu am reswm arall, cysylltwch â ni i drafod unrhyw bryderon sydd gennych.


Os hoffech gael mynediad i'r cais hwn mewn fformat arall, cysylltwch â ni i roi gwybod. Rydyn ni'n ymroddedig i fodloni gofynion mynediad; rhowch wybod i ni beth sydd ei angen arnoch chi.

Cysylltwch ag Alys Lewin, Rheolwr Gweithrediadau ac Ysgrifennydd y Cwmni: alys@llenyddiaethcymru.org neu drwy ffonio 029 2047 2266.

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales







Sut i ymgeisio

1. **Darllenwch** y wybodaeth yn y pecyn recriwtio hwn yn ofalus, yn ogystal â chanllaw Hanfodol yr Ymddiriedolwr. Hefyd, darllenwch Gynllun Strategol Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales yma.

2. **Ysgrifennwch lythyr cais** heb fod dros 1,000 o eiriau neu **lluniwch gais fideo** heb fod yn fwy na phum munud (mae'r ddau fformat yn dderbyniol ac o werth cyfartal). Dylai eich llythyr/fideo gynnwys eich enw, cyfeiriad post, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost. Rydyn ni eisiau gwybod:
   - Pam fod gennych ddiddordeb mewn swydd Ymddiriedolwr
   - Nodwch a ydych chi'n uniaethu fel rhywun sydd wedi eu tangynrychioli yn y sector llenyddol.
   - Manylion eich sgiliau, gwybodaeth a phrofiad a sut bydden nhw'n berthnasol i waith Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales.
   - Manylion tri llwyddiant proffesiynol a'r rhesymau rydych chi'n falch ohonynt.
   - Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r swydd rydych chi'n ymgeisio amdani.

3. Anfonwch y canlynol at post@llenyddiaethcymru.org:
   - Eich llythyr cais neu'ch cais fideo.
   - Eich CV (dim mwy na thair tudalen A4), gan gynnwys manylion dau ganolwr.
   - Ffurflen Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales wedi'i chwblhau (ar gael yma)

Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn yn asesu'r ceisiadau yn rheolaidd, ac yn gwahodd ymgeiswyr llwyddiannus i gyfweliad. Bydd y panel cyfweld yn cynnwys aelodau o Fwrdd Ymddiriedolwyr Llenyddiaeth Cymru | Literature Wales, aelodau o staff, a chynrychiolwyr o Gyngor Celfyddydau Cymru.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech gael sgwrs anffurfiol i drafod y rôl cyn gwneud cais, cysylltwch ag Alys Lewin, Ysgrifennydd y Cwmni: alys@llenyddiaethcymru.org